# Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Dinbych

Dydd Iau 10 Hydref 2024

Coed Pella,
Conway Road
Bae Colwyn
LL29 7AZ

## RHAGLEN

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Croeso, Cyflwyniadau | SB / Pawb |
| **2** | Cylch Gorchwyl | SBR |
| **3** | Diweddariad Conwy | SBR |
| **4** | Diweddariad Sir Ddinbych | AW/ HA |
| **5** | Beth ydym ni'n dymuno ei gyflawni drwy'r fforwm? (Sesiwn grŵp) | Pawb |
| **6** | Datganiadau o Ddiddordeb | Pawb |
| **7** | PENODI CADEIRYDD A DIRPRWY GADEIRYDD<br><br>Mae'r weithdrefn sydd i'w dilyn i benodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Fforwm wedi'i nodi yn Rheoliad 12 o Reoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001.<br><br>Yn ei hanfod, mae'n rhaid i benodiad y Cadeirydd a'r Dirprwy Gadeirydd fod drwy bleidlais gudd fel yr eitem gyntaf o fusnes yn ail gyfarfod y Fforwm. Dim ond aelodau'r Fforwm all sefyll am y swyddi, a'r ysgrifennydd fydd yn llywyddu yn ystod yr etholiad.<br><br>Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru yn awgrymu mai aelodau eraill y Fforwm ddylai gynnig yr ymgeiswyr. Mae'r canllawiau'n nodi mai'r Fforwm ei hun yn ei gyfarfod cyntaf ddylai benderfynu, yn amodol ar y Rheoliadau, sut y mae'n dymuno cynnal yr etholiad.<br><br>Yn hytrach na chloi'r cyfarfod cyntaf drwy geisio enwebiadau (fel yr awgrymir yn y canllawiau), y cynnig yw ceisio enwebiadau a chynnal yr etholiad ei hun ar ddechrau ail gyfarfod y Fforwm. Bydd hyn yn galluogi'r aelodau hynny sydd eisoes wedi ymgyfarwyddo â'r manylion a gyflwynwyd gan eu cyd-aelodau (fel y nodir yn Eitem rhif 6 ar y rhaglen uchod) i gyfarfod yn anffurfiol cyn y broses benodi, cyn dechrau'r ail gyfarfod.<br><br>CYNNIG - mai enwebu a phenodi Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd y Fforwm yw'r eitem gyntaf o fusnes yn y cyfarfod | SBR |

| | | |
|---|---|---|
| | nesaf. Dylai unrhyw un sydd â diddordeb mewn cael eu hystyried gyflwyno CV byr i ysgrifennydd y fforwm a bydd yr ysgrifennydd yn rhoi copi i bob aelod yn ystod yr wythnos cyn y cyfarfod. | |

**Yn bresennol**

| | | |
|---|---|---|
| Simon Billington | SB | CBSC |
| Sophie Birchall Rogerson | SBR | CBSC |
| Bethan Roberts | BR | CBSC (Cofnodion) |
| Y Cynghorydd Goronwy Edwards | GE | Aelod Fforwm |
| Caroline Turner | CT | CBSC (dros Teams) |
| Andrew Wilkinson | AJW | CBSC |
| Heather Fitzgerald | HF | Aelod Fforwm |
| Ant Tomlinson | AT | CSDd |
| Howard Sutcliffe | HS | CSDd |
| Adrian Walls | AW | CSDd |
| Y Cynghorydd Barry Mellor | BM | Aelod Fforwm |
| Chris Ruane | CR | Aelod Fforwm |
| Emma McCloskey | EM | Aelod Fforwm |
| Andy Murir | AM | Aelod Fforwm |
| Kevin Slattery | KS | Aelod Fforwm |
| John Buckley | JB | Aelod Fforwm |
| Geraint Roberts | GR | Aelod Fforwm |
| Katherine Goodey | KG | Aelod Fforwm |
| Graham Taylor | GT | Aelod Fforwm |
| Leena Farhat | LF | Aelod Fforwm |
| Tom Johnstone | TJ | Aelod Fforwm (dros Teams) |

**COFNODION**

| Eitem | | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **1.0** | **Croeso, Cyflwyniadau** | |
| 1.1 | Aeth SB trwy'r briff iechyd a diogelwch. Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan SBR a chyflwynodd yr aelodau fforwm eu hunain. | |
| **2.0** | **Cylch Gorchwyl** | |
| 2.1 | Cyflwynodd SBR ddogfen cylch gorchwyl ddrafft i'r sawl oedd yn bresennol. | |

| | | |
|---|---|---|
| 2.2 | Holodd KS ynghylch adran 8.e, gan ofyn a fyddai modd i unrhyw aelod o'r cyhoedd fod yn bresennol?<br><br>Dywedodd AW y gallant ddod i arsylwi'r cyfarfod ac cael eu gwahodd i siarad gan y cadeirydd.<br><br>Holodd TJ ei bod yn ymddangos mai dim ond diddordebau mynediad tirol a gynrychiolir gennym, ac nad oes unrhyw ddiddordebau mynediad morol na dŵr croyw yn cael eu cynrychioli gennym ar hyn o bryd?<br><br>Eglurodd AW ei bod yn annhebygol iddynt gwrdd â'r cworwm gyda niferoedd uchel o aelodau, ac felly ei bod hi'n well cael llai o aelodau, fel bod modd cynnal y fforymau.<br><br>Ychwanegodd SBR at hyn gan egluro ei bod wedi cymryd cryn amser i ennyn diddordeb digon o bobl ac os oes digon o aelodau i gynnal fforwm sy'n cwmpasu'r rhan fwyaf o'r gofynion, ei bod hi'n well cael fforwm na dim un o gwbl.<br><br>Dywedodd GE fod sawl aelod gan Fforwm Mynediad Lleol Eryri a allai gynrychioli'r diddordebau hynny.<br><br>Dywedodd LF hefyd ei bod yn gwybod am ddarpar aelodau sydd â diddordebau morol a dŵr croyw, ac y gallai rannu'r manylion pe bai angen. | |
| **3.0** | **Diweddariad Conwy** | |
| 3.1 | Rhannodd SBR gyflwyniad Power Point, a oedd yn dangos rhywfaint o'r gwaith sydd wedi'i wneud gan CBSC dros y flwyddyn ddiwethaf gyda chyllid grant gan CNC, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a'r gronfa Ffyniant Bro. Eglurodd SBR fod llawer o'r gwaith wedi'i wneud gyda chymorth gan Aelodau Ward lleol, preswylwyr, myfyrwyr a grwpiau 'Cyfeillion'. Ymhlith meysydd i'w gwella y rhoddir sylw iddynt mae gwaith Gwella Mynediad ledled y sir, cadw coed, gwella gwarchodfeydd natur, gwella isadeiledd gwyrdd, lliniaru a diogelu rhywogaethau, gwaith amddiffyn yr arfordir a chynlluniau teithio llesol.<br><br>Rhannodd SBR ddolen i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy Conwy 2019-2029. | |
| 3.2 | Gofynnodd KS ai uchelgais yn unig oedd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.<br><br>Eglurodd SBR fod CBSC yn ei ddefnyddio fel strategaeth ar gyfer cynnal a darparu mynediad lleol yng Nghonwy.<br><br>Gofynnodd GR, gan mai fforwm 'Dwyrain Conwy' ydyw, lle mae'r ffin?<br><br>Eglurodd SBR ei fod, yn nodweddiadol, yn ymwneud â'r rhannau o'r Sir nad ydynt yn rhan o Fforwm Mynediad Lleol Eryri, fodd bynnag mae wedi dangos enghreifftiau o waith o bob rhan o'r Sir yn ei chyflwyniad, er mwyn rhannu'r holl wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd ledled y Sir, a bydd yn parhau i wneud hynny mewn cyfarfodydd yn y dyfodol. | |

| | | |
|---|---|---|
| **4.0** | **Diweddariad Sir Ddinbych** | |
| 4.1 | Cyfeiriodd AW at gyflwyniad a roddwyd yng nghyfarfod diwethaf y Fforwm Mynediad yn 2023, a oedd yn rhoi amlinelliad o arolwg llwybrau Cyngor Sir Ddinbych, a oedd yn arolygu 963 km o tua 1300 km o lwybrau cyhoeddus, a dywedodd eu bod wedi penderfynu defnyddio'r cyllid ar gyfer cynnal y gwaith gwella a gychwynnwyd, yn hytrach nag arolygu gweddill y llwybrau eleni.<br><br>Aeth ymlaen i egluro bod sgôr cyflwr wedi'i bennu ar gyfer pob llwybr, yn ogystal â lluniau cysylltiedig o bob eitem o ddodrefn ar y llwybr hwnnw e.e. camfeydd, arwyddion, pontydd.<br><br>Eglurodd AW fod modd wedyn pennu statws ar gyfer y llwybrau:<br>Gwyrdd - wedi pasio<br>Glas - mân anghyfleustra e.e. arwydd ar goll<br>Piws - gallu cerdded ar hyd y llwybr ond mae'n bosibl na fydd yn brofiad pleserus<br>Coch - methu pasio<br><br>Mae hyn yn golygu bod modd iddynt ganolbwyntio eu hymdrechion ar y cymunedau sy'n ymddangos fel y rhai sydd â'r mwyaf o broblemau.<br><br>Dywedodd AW fod eu cynllun gwella mynediad yn seiliedig ar uwchraddio ar raddfa fawr, yn enwedig ar y llwybrau a hyrwyddir a gwella ymgysylltiad â thirfeddianwyr. Er enghraifft, mae'n well gan ambell un o'r gymuned amaethyddol gael giatiau cerddwyr yn hytrach na chamfeydd, gan fod modd iddynt eu defnyddio mewn gwirionedd, a'u bod o fwy o werth o ran eu gwaith. Eglurodd AW hefyd fod datblygu ardaloedd trefol yn elfen arall y rhoddir sylw iddi. Pan fydd adeiladwyr yn dymuno codi stad o dai mewn cae yn y Rhyl, cânt eu hannog i greu llwybr drwy fan agored neu ardal werdd, yn hytrach na dim ond palmant, er mwyn osgoi dibrisiad yn y rhwydwaith.<br><br>Gofynnodd TJ a oedd unrhyw ran o'r asesiad o'r dadansoddiad rhwydwaith yn rhoi ystyriaeth i'r pwyntiau allweddol ac yn blaenoriaethu'r rhai y mae angen gweithredu arnynt. E.e. pan fo hawl dramwy gyhoeddus wedi'i rhwystro, gan wneud darn cyfan o'r rhwydwaith yn anaddas i gadeiriau olwyn / beicwyr / ceffylau ac ati? Felly, byddai'r tagfeydd byr, be baent yn cael eu datrys, yn rhyddhau dolenni/ llwybrau?<br><br>Cadarnhaodd AW eu bod wedi gwneud hynny, ond eu bod yn mynd trwy eu canfyddiadau ar hyn o bryd ac nad ydynt wedi edrych ar yr arolwg cyfan eto. Yn ogystal, mae blaenoriaethu gwaith yn rhywbeth y maent yn dymuno ei drafod â'r fforwm, gan ganolbwyntio ar faterion pwysig y rhwydweithiau llai dwys na'r rhwydwaith ehangach a chanolbwyntio ar lwybrau eraill os nad yw llwybr troed neu lwybr ceffyl yn cael eu defnyddio'n aml neu os nad oes modd mynd ar eu hyd, gellir defnyddio'r rhwydwaith ffordd yn hytrach. | |

| | | |
|---|---|---|
| **4.1** | Dechreuodd HS ei gyflwyniad drwy egluro bod Tîm y Tirweddau Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Cefn Gwlad yn canolbwyntio ar reoli safleoedd, pwysau ymwelwyr, cefnogi'r tîm Hawliau Tramwy, rheoli llwybrau a hyrwyddir, iechyd a lles a gwirfoddolwyr. Esboniodd mai un pwysau o ran ymwelwyr yw fod timau Cyngor Dinbych ac TC yn annogi cŵn i fod ar dennyn ac y cynhelir dwy neu dair ymgyrch bob tymor i annog pobl i roi eu cŵn ar dennyn, gan ei bod yn is-ddeddf o fewn y Parciau Gwledig.<br><br>Eglurodd HS fod ganddynt dri math gwahanol o grant ar y ffordd, sy'n cefnogi'r tîm Hawliau Tramwy a llwybrau a hyrwyddir. Grant Gwella Mynediad, SLSP (Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy), sef grant gan Lywodraeth Cymru ar gyfer tirweddau a ddiogelir, yn ogystal â grant gan Gyfoeth Naturiol Cymru.<br><br>Mae CSDd yn hyrwyddo 261 milltir / 424 cilomedr o lwybrau cerdded, 117 milltir yn Sir Ddinbych (y tu allan i'r dirwedd genedlaethol) a 45 milltir ym Mryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy. Maent hefyd yn hyrwyddo 509 milltir ar gyfer beicio a marchogaeth sydd wedi cael eu hariannu mewn ffyrdd gwahanol ac amrywiol, gan gynnwys grant bwrdd Croeso Cymru sydd wedi helpu i wella beicio oddi ar y ffordd sy'n cysylltu â llwybr Hiraethog a llwybrau eraill o amgylch yr Alwen a'r Brenig.<br><br>Mae'r rhaglen Natur er Budd Iechyd yn hyrwyddo mynediad i natur a'r awyr agored trwy ymarfer corff, celf a chrefftau, garddio a chadwraeth ymarferol. Dywedodd HS mai rhai o fanteision hyrwyddo a sicrhau bod mwy o bobl yn defnyddio'r llwybrau hyn yw mai po fwyaf y caiff llwybr ei ddefnyddio, y lleiaf tebygol ydyw o ddirywio yn ogystal ag annog perchnogaeth gymunedol o fannau gwyrdd o fewn yr Hawl Tramwy. Mae'r cynlluniau hefyd wedi annog pobl nad ydynt erioed wedi cerdded o'r blaen i wella eu ffitrwydd, eu hunanhyder a'u hiechyd meddwl.<br><br>Trafododd HS bwysigrwydd adfer natur o ran elfennau sy'n cael eu heffeithio gan newid hinsawdd yn yr ardal, megis rheoli rhostir, erydiad twyni a llifogydd. | |
| **5.0** | **Beth ydym ni'n dymuno ei gyflawni drwy'r fforwm? (Sesiwn grŵp)** | |
| 5.1 | Cafodd yr aelodau fforwm eu rhannu i grwpiau o bedwar ar gyfer trafod y cwestiynau isod yn eu grwpiau:<br>1. Pe baech chi'n cael dewis eich hoff lwybr neu le yn ardal Fforwm Mynediad Lleol Dwyrain Conwy a Sir Ddinbych, pa un fyddech chi'n ei ddewis? (Torri'r Iâ)<br>2. Diben y Fforwm Mynediad Lleol yw cynnig cyngor ar faterion penodol sy'n berthnasol yn lleol. Pa bynciau y dylid eu hystyried felly fel eitemau ar gyfer y rhaglen sydd o bwysigrwydd penodol yn lleol, yn y cyfarfodydd nesaf? A pham?<br>3. Sut y gellir strwythuro fforymau yn y dyfodol fel bod modd rhannu cyngor ac arferion da? | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 5.2 | *Mae'r atebion i'r sesiynau grŵp wedi'u casglu a'u rhoi ar daenlen Excel i'w dosbarthu i aelodau'r grŵp ac i lywio'r pynciau arfaethedig i'w cyflwyno fel eitemau ar y rhaglen yn y dyfodol, unwaith y bydd Cadeirydd wedi'i ethol yn y cyfarfod nesaf.* | |
| **6.0** | **Datganiadau o Ddiddordeb** | |
| 6.1 | Cyhoeddodd SBR y bydd y fforwm yn edrych ar y sawl sydd wedi mynegi diddordeb mewn bod yn Gadeirydd neu'n Is-Gadeirydd cyn y cyfarfod nesaf. Cyfeiriodd SBR at ddiwedd y rhaglen, sy'n nodi manylion ynghylch penodi Cadeirydd a sut y mae'r swyddogion yn bwriadu gwneud hynny. Eglurodd y byddai neges e-bost yn cael ei rhannu dros yr wythnosau nesaf, fel bod modd i'r aelodau gyflwyno eu datganiadau, ac ni ddylent fod yn fwy na thudalen o hyd. Rhennir y datganiadau â'r holl aelodau, er mwyn enwebu Cadeirydd ac Is-Gadeirydd yn gudd ar ddechrau cyfarfod nesaf y fforwm.<br><br>Gofynnodd GT beth yw cyfnod y swydd.<br><br>Dywedodd AW y byddant yn cael eu penodi am dair blynedd neu nes bydd rhywun yn ymddiswyddo.<br><br>Eglurodd SBR y bydd cyfnod y swydd a pha mor aml y cynhelir cyfarfodydd yn cael ei nodi yn y cylch gorchwyl, a fydd yn cael ei ddosbarthu hefyd i'r grŵp dros y diwrnodau gwaith nesaf.<br><br>Gofynnodd HF i'r fforwm a oeddent yn dymuno gwneud sylw ynghylch y Parc Cenedlaethol arfaethedig, gan fod angen i sylwadau gael eu cyflwyno erbyn 16 Rhagfyr.<br><br>Awgrymodd CR y dylid cynnal y cyfarfod nesaf yn weddol gynnar, gan gynnig wythnos gyntaf mis Rhagfyr.<br><br>Awgrymodd SBR bod y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ddiwedd mis Tachwedd/ dechrau mis Rhagfyr, gan y byddai hefyd yn rhoi amser i'r aelodau gyflwyno eu datganiadau.<br><br>Gofynnodd SBR i BR anfon neges e-bost gyda'r papur pleidleisio, y cynigion hyd yma a'r lleoliadau ar gyfer y cyfarfod nesaf. | |
| **7.0** | **Unrhyw Fater Arall** | |

| | | |
|---|---|---|
| 7.1 | Rhannodd TJ fod prosiect dan arweiniad y gymuned yn Abergele yn dymuno gosod trac pwmpio ym Mharc Pentre Mawr, a bod caniatâd cynllunio wedi’i gyflwyno i CBSC ar hyn o bryd. Maent wedi llwyddo hefyd i gael grant o £300,000 gan Chwaraeon Cymru ac £20,000 ychwanegol drwy Gronfa Gwynt y Môr, gan olygu bod ganddynt tua 90% o’r cyllid sydd ei angen. Roedd TJ yn annog unrhyw un â diddordeb i ymchwilio i’r prosiect a rhannu eu sylwadau cefnogol.<br><br>Rhodd AW diweddariad ar y sefyllfa gyfreithiol bresennol gyda’r dyddiad cau o 2026 yn seiliedig ar wybodaeth a dderbyniwyd gan CNC.<br><br>Cyflwynodd AJW ei hun a rhannodd ei gefnogaeth i'r fforwm a diolchodd i'r aelodau am eu presenoldeb. | |
| | | |